

Rhif: WG35897



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Safonau Gwasanaeth ar gyfer Addasiadau i Dai

Dyddiad cyhoeddi: 26 Medi 2018
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 19 Rhagfyr 2018

Trosolwg

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ynghylch Safonau Gwasanaeth ar gyfer Addasiadau i Dai, sy'n cynorthwyo pobl anabl a phobl hŷn i fyw'n fwy annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

Nod y Safonau yw sicrhau mwy o gysondeb yn y modd y caiff addasiadau eu darparu, beth bynnag fo'r ddeiliadaeth sydd gan unigolyn a ble bynnag y mae'n byw.

Sut i ymateb

Mae hwn yn ymgynghoriad ysgrifenedig, electronig. Mae'r cwestiynau wedi'u crynhoi mewn holiadur ar ddiwedd y ddogfen hon, a dylech ddefnyddio'r holiadur i roi eich adborth. Gellir ebostio/postio'r ymatebion i'r cyfeiriadau a nodir isod yn yr adran sy'n cynnwys manylion cysylltu.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae'r dogfennau ymgynghori i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru:

www.llyw.cymru/ymgyngoriadau

Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Tîm Byw'n Annibynnol
Polisi Tai
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

ebost: IndependentLiving@gov.wales

Cynnwys

1. Nod.....	6
2. Materion allweddol	6
3. Rychwant	7
4. Safonau Gwasanaeth ar gyfer darparu Addasiadau i Dai.....	7
5. Monitro'r Safonau Gwasanaeth	8
6. Cwynion a phryderon.....	8
Ffigur 1 – Safonau Gwasanaeth ar gyfer Addasiadau i Dai.....	9
Ffigur 2 – Diffiniadau o'r gwahanol fathau o Addasiadau i Dai.....	12
Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad	14

Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth i chi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn, a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (ee sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond dan gontract yr ymgymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw yn ddiogel. Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio eich manylion cyn cyhoeddi eich ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth. Os caiff eich manylion eu cyhoeddi yn rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hynny eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

Dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:
i gael gwybod am y data personol a gedwir amdanoch a'u gweld
i'w gwneud yn ofynnol i ni gywiro gwallau yn y data hynny
(dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu prosesu'r data neu gyfyngu ar hynny
(dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
(dan rai amgylchiadau) i'ch data fod yn gludadwy
i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

ebost:
Data.ProtectionOfficer@gov.wales

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

1. Nod

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y rôl hanfodol y mae addasiadau i dai'n ei chwarae o safbwynt cynorthwyo pobl anabl a phobl hŷn i fyw'n ddiogel ac yn annibynnol, sy'n gwella iechyd a lles yr unigolyn a gynorthwyr ac iechyd a lles eu teuluoedd ac sy'n lleihau'r pwysau ar wasanaethau rheng flaen megis gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r gwaith atal y mae addasiadau i dai'n ei gynnig yn cyd-fynd yn helaeth iawn ag egwyddorion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r dull gweithredu a eglurir yn Ffyniant i Bawb a Cymru Iachach.

Mae darparu cymorth ar gyfer addasiadau i dai yng Nghymru yn gymhleth ac yn adlewyrchu'r ffaith bod amryw bartneriaid yn ymwneud â'r trefniadau ar gyfer gofal a chymorth i bobl anabl a phobl hŷn.

Er mwyn sicrhau mwy o gysondeb yn y ddarpariaeth ledled Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi Safonau Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer darparu addasiadau i dai er mwyn cynorthwyo pobl anabl a phobl hŷn i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Nod y Safonau yw egluro lefel y gwasanaeth y gall defnyddwyr gwasanaeth ei ddisgwyl pan fydd addasiad yn cael ei ddarparu a'i osod, beth bynnag fo'r deiliadaeth sydd ganddynt a ble bynnag y maent yn byw. Dylai'r Safonau Gwasanaeth sicrhau bod darparwyr gwasanaeth yn darparu addasiadau i dai mewn modd mwy cyson, a dylent roi gwybod i ddefnyddwyr gwasanaeth am lefel y gwasanaeth y gallant ei ddisgwyl pan fyddant yn gwneud cais am gymorth ar ffurf addasiad.

2. Materion allweddol

Mae adolygiadau annibynnol diweddar wedi amlygu cymhlethdod yr amryw ffyrdd y caiff addasiadau i dai eu darparu. Mae enghreifftiau o adroddiadau o'r fath yn cynnwys:

- Adolygiad o Addasiadau ar gyfer Byw'n Annibynnol: Llywodraeth Cymru (2015) ¹
- Addasiadau Tai: Swyddfa Archwilio Cymru (2018) ²
- Tai a phobl anabl – argyfwng cudd Cymru: Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2018) ³
- Addasiadau Tai: Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (2018) ⁴

Mae pob adroddiad wedi nodi problemau sy'n ymwneud â chymhlethdod ariannu addasiadau a'r trefniadau anodd ar gyfer cael mynediad i wasanaethau ledled Cymru. Mae'r amryw raglenni ariannu sydd ar waith ar gyfer darparu addasiadau yng Nghymru wedi arwain at sefyllfa lle mae defnyddwyr gwasanaeth yn cael lefelau gwahanol o wasanaeth o ganlyniad i'w deiliadaeth a'r ardal y maent yn byw ynddi.

¹ <https://llyw.cymru/statistics-and-research/review-independent-living-adaptations/?lang=cy>

² <https://www.archwilio.cymru/system/files/publications/housing-adaptations-2018-welsh.pdf>

³ <https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/housing-and-disabled-people-wales-hidden-crisis-welsh-language-version.pdf>

⁴ <http://www.cynulliad.cymru/laid%20documents/cr-ld11703/cr-ld11703-w.pdf>

3. Rhychwant

Bydd y Safonau hyn yn berthnasol i bob math o addasiadau i dai, ac i'r sefydliadau a'r bobl ganlynol:

- Awdurdodau lleol
- Asiantaethau Gofal a Thrwsio
- Landlordiaid cymdeithasol cofrestredig
- Sefydliadau Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr
- Therapyddion galwedigaethol.

Yn ogystal â'r uchod, bydd y Safonau Gwasanaeth yn berthnasol i weithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r Safonau yn gyson, a gall gyhoeddi Safonau diwygiedig fel y bo'n briodol.

Mae gofynion deddfwriaethol sy'n ymwneud â darparu mathau penodol o addasiadau'n bwysicach nag unrhyw Safonau Gwasanaeth a nodir yn y ddogfen hon, a dylai darparwyr gwasanaeth ofyn am gyngor cyfreithiol lle bo angen.

4. Safonau Gwasanaeth ar gyfer darparu Addasiadau i Dai

Mae'r Safonau Gwasanaeth yn pennu'r lefelau gwasanaeth a ddisgwylir ar gyfer gosod addasiadau i dai, ac mae'r Safonau i'w gweld yn **Ffigur 1**.

Bydd pennu lefelau gwasanaeth yn helpu i sicrhau bod addasiadau i dai'n cael eu darparu mewn modd cyson, beth bynnag fo'r ddeiliadaeth sydd gan ddefnyddiwr gwasanaeth a ble bynnag y mae'n byw, a bydd hefyd yn rhoi hyblygrwydd i ddarparwyr gwasanaeth benderfynu ar y ffordd orau o ddefnyddio eu hadnoddau i fodloni'r safonau.

Oherwydd y cymhlethdod sy'n gysylltiedig â darparu rhai addasiadau i dai, yn enwedig addasiadau mwy o faint, gall y broses arwain at nifer o gamau a allai olygu bod angen mewnbwn gan randdeiliaid ehangach megis yr adran gynllunio, timau rheoli adeiladu a chwmnïau cyfleustodau. Mae'n rhaid i'r camau hynny gael eu cymryd er mwyn sicrhau bod yr addasiad yn darparu'r help a'r cymorth gofynnol ar gyfer y defnyddiwr gwasanaeth ac er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni gofynion deddfwriaethol ehangach. O ganlyniad, gall yr amserlenni ar gyfer darparu addasiad amrywio. Mae'r Safon Gwasanaeth yn **Ffigur 1** ar gyfer 'Amserlenni Disgwyliedig' wedi'i rhannu er mwyn adlewyrchu'r camau allweddol canlynol sy'n gallu bod yn gysylltiedig â phenderfynu a ddylid darparu addasiad ai peidio:

- Hyd y cyfnod rhwng yr adeg pan fydd defnyddiwr gwasanaeth yn cysylltu gyntaf â darparwr gwasanaeth perthnasol (gallai fod yn awdurdod lleol, yn Asiantaeth Gofal a Thrwsio, yn gymdeithas dai neu'n rhywrai y mae'r defnyddiwr gwasanaeth mewn cysylltiad â nhw yn y sector iechyd neu'r

sector gwasanaethau cymdeithasol) a'r adeg pan fydd yn cael ei asesu gan unigolyn cymwys (megis therapydd galwedigaethol neu asesydd dibynadwy); a'r

- Amserlen ar gyfer sicrhau bod therapydd galwedigaethol (neu unigolyn cymwys arall) yn darparu adroddiad/atgyfeiriad/argymhelliad i'r darparwr gwasanaeth, sy'n egluro'r gwaith addasu gofynnol;
- Hyd y cyfnod rhwng dyddiad yr atgyfeiriad (neu'r penderfyniad, yr argymhelliad, yr adroddiad) a wnaed gan yr unigolyn cymwys, pan gadarnheir bod angen yr addasiad, a'r adeg pan gaiff yr addasiad ei osod. Diben hynny yw sicrhau bod mathau eraill o gymorth (ee gwasanaeth ailalluogi) yn cael eu hystyried cyn penderfynu bod angen addasiad.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r darparwr gwasanaeth gydweithredu â therapyddion galwedigaethol (neu unigolion cymwys eraill a all gynnig cyngor a nodi'r addasiad sy'n ofynnol) yn ogystal â'r defnyddwyr gwasanaeth er mwyn sicrhau bod y canlyniad gorau posibl yn cael ei gyflawni, gan barhau i adlewyrchu'r egwyddor bod unrhyw waith yn angenrheidiol ac yn briodol, yn rhesymol ac yn ymarferol.

Caiff y diffiniadau o'r gwahanol fathau o addasiadau i dai (bach, canolig neu fawr) eu rhestru yn **Ffigur 2**. Maent wedi'u cynnwys er mwyn rhoi canllaw i ddarparwyr gwasanaeth ynghylch penderfynu sut i gofnodi'r math mwyaf priodol o addasiad (bach, canolig neu fawr). Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai sefyllfaoedd neu achosion unigol godi nad ydynt yn cyd-fynd â'r categorïau sydd yn Ffigur 2. Mewn achosion o'r fath, dylai darparwyr gwasanaeth ddefnyddio eu barn broffesiynol i benderfynu pa gategori sydd fwyaf priodol i'w ddefnyddio, ar sail tystiolaeth a barn ddiduedd.

Yn ogystal, diben y diffiniadau yn **Ffigur 2** yw ceisio helpu defnyddwyr gwasanaeth i ddeall y gwahanol fathau o addasiadau sydd ar gael a beth y gallant ei ddisgwyl o ran sut y cânt eu darparu gan y darparwr gwasanaeth.

5. Monitro'r Safonau Gwasanaeth

Caiff data monitro perfformiad eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio methodoleg casglu data sy'n bodoli eisoes ar gyfer data'r cynllun HWYLUSO; caiff data perfformiad cenedlaethol ar gyfer pob sefydliad eu cyhoeddi'n flynyddol.

6. Cwynion a phryderon

Os nad yw defnyddiwr gwasanaeth yn fodlon â lefel y gwasanaeth a gafodd, mae ganddo hawl i gwyno. Dylid cyfeirio unrhyw gwynion at y darparwr gwasanaeth a dylid ymdrin â nhw'n unol â gweithdrefn gwyno sefydliad y darparwr.

Ffigur 1 – Safonau Gwasanaeth ar gyfer Addasiadau i Dai

Safon Gwasanaeth	Lefel y gwasanaeth a ddisgwylir
Safon 1: <i>Diben</i>	Diben addasiad yw helpu pobl anabl a/neu bobl hŷn i barhau i fyw'n annibynnol neu i ddod yn fwy annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Dylai'r addasiad a ddarperir fod yn angenrheidiol ac yn briodol, a dylai fod yn rhesymol ac yn ymarferol hefyd.
Safon 2: <i>Cydraddoldeb ac Amrywiaeth</i>	Gall pobl anabl a/neu bobl hŷn ddisgwyl cael eu trin yn deg gyda pharch. Bydd darparwyr gwasanaeth yn sicrhau bod polisiau cydraddoldeb ac amrywiaeth ganddynt ar waith i sicrhau hynny.
Safon 3: <i>Cyfathrebu</i>	Bydd unrhyw wybodaeth a negeseuon mewn fformat sy'n diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn y modd mwyaf effeithiol, er enghraifft byddant ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac mewn fformatau hygyrch sy'n cynnwys Braille, print bras, fersiynau sain ac ieithoedd eraill. Ar ddechrau'r broses, bydd y defnyddiwr gwasanaeth (neu'i gynrychiolydd) yn cael gwybod am y camau allweddol sy'n ymwneud â gosod addasiad, bydd yn cael ei gynnwys yn y broses gwneud penderfyniadau, bydd yn cael gwybod am yr amserlenni disgwyliedig, bydd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am gynnydd a bydd yn cael ei wahodd i roi adborth pan fydd yr addasiad wedi'i osod.
Safon 4: <i>Ansawdd y Gwasanaeth</i>	Bydd y gwaith yn cael ei gyflawni gan unigolyn cymwys, sydd naill ai'n un o weithwyr cyflogedig y darparwr gwasanaeth neu'n rhywun sydd ar ei restr o gontractwyr cymeradwy ac y mae'r darparwr gwasanaeth yn ei fonitro'n rheolaidd. Os bydd defnyddiwr gwasanaeth yn penderfynu defnyddio ei gontractwr ei hun i gyflawni'r gwaith, y defnyddiwr gwasanaeth fydd yn gyfrifol am ymdrin ag unrhyw broblemau a'u datrys.
Safon 5: <i>Ansawdd y Cyfarpar</i>	Bydd unrhyw gyfarpar a osodir yn cydymffurfio â'r gofynion perthnasol o ran iechyd a diogelwch ac unrhyw fanylebau technegol, a bydd yn briodol i'w ddiben arfaethedig. Dylai'r defnyddiwr gwasanaeth gael gwybod hefyd am unrhyw warant, unrhyw daliadau gwasanaeth ac unrhyw ofynion cynnal a chadw os yw hynny'n briodol.

Safon 6: Amserlenni Disgwyliedig	<p>Ar gyfer addasiadau bach: Fel rheol bydd yr ateb i broblem yn cael ei osod cyn pen pythefnos ar ôl dyddiad y cyswllt cyntaf â'r darparwr gwasanaeth, a fydd wedi barnu ei bod yn angenrheidiol gosod yr addasiad.</p>
	<p>Ar gyfer addasiadau canolig: - Ar ôl dyddiad y cyswllt cyntaf â'r darparwr gwasanaeth, gall y defnyddiwr gwasanaeth ddisgwyl cael ei asesu cyn pen deufis gan unigolyn cymwys, ee therapydd galwedigaethol neu asesydd dibynadwy. - Ar ôl cadarnhau bod addasiad yn angenrheidiol, bydd y therapydd galwedigaethol neu'r asesydd dibynadwy yn darparu adroddiad/atgyfeiriad/argymhelliad i'r darparwr gwasanaeth cyn pen pythefnos ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud. - Fel rheol bydd yr ateb i broblem yn cael ei osod cyn pen pedwar mis (neu'n unol â gofynion deddfwriaethol) ar ôl dyddiad yr atgyfeiriad/argymhelliad gan unigolyn cymwys.</p>
	<p>Ar gyfer addasiadau mawr: - Ar ôl dyddiad y cyswllt cyntaf â'r darparwr gwasanaeth, gall y defnyddiwr gwasanaeth ddisgwyl cael ei asesu cyn pen deufis gan unigolyn cymwys, ee therapydd galwedigaethol. - Ar ôl cadarnhau bod addasiad yn angenrheidiol, bydd y therapydd galwedigaethol yn darparu adroddiad/atgyfeiriad/argymhelliad i'r darparwr gwasanaeth cyn pen pythefnos ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud. - Fel rheol bydd yr ateb i broblem yn cael ei osod cyn pen 15 mis (neu'n unol â gofynion deddfwriaethol) ar ôl dyddiad yr atgyfeiriad gan unigolyn cymwys. Mae hynny'n adlewyrchu'r camau sydd i'w cymryd mewn rhai achosion, ee yr angen am ganiatâd cynllunio.</p>
Safon 7: Archwiliadau o Gymhwystra	<p>Ar gyfer addasiadau bach: - Nid oes angen cynnal prawf modd. - Nid oes angen asesiad gan therapydd galwedigaethol. - Mae'n bosibl y bydd angen asesiad gan asesydd dibynadwy.</p>
	<p>Ar gyfer addasiadau canolig: - Mae'n bosibl y bydd angen cynnal prawf modd. - Mae'n bosibl y bydd angen asesiad gan therapydd galwedigaethol. - Bydd angen asesiad gan asesydd dibynadwy.</p>



Ar gyfer addasiadau mawr:

- Mae'n bosibl y bydd angen cynnal prawf modd.
- Bydd angen asesiad gan therapydd galwedigaethol.
- Ni fyddai asesiad gan asesydd dibynadwy'n briodol yn yr achosion hyn.

Ffigur 2 – Diffiniadau o'r gwahanol fathau o Addasiadau i Dai

Categori	Natur y gwaith sy'n ofynnol	Enghreifftiau o waith	Ffynhonnell ariannu
<p>Addasiadau bach Mae addasiadau o'r fath yn eitemau rhad y gellir eu darparu'n gyflym iawn. Yn gyffredinol, bydd addasiad bach yn perthyn i'r disgrifiad o 'waith sy'n ofynnol yn syth i atal rhywun rhag cwmpo' neu 'waith brys sy'n ofynnol er mwyn rhyddhau rhywun o'r ysbyty'. Gellir cynnal asesiad ar ei gyfer a'i osod cyn pen rhai diwrnodau, neu ar yr un diwrnod os oes angen yr addasiad ar frys. Gall yr addasiad gael ei nodi gan nifer o staff yn y sector iechyd / y sector gwasanaethau cymdeithasol / aelodau eraill o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol, ee staff landlord cymdeithasol cofrestredig, staff Asiantaeth Gofal a Thrwsio.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae angen mân addasiad i'r cartref • Nid yw'n ateb arbenigol i broblem • Nid oes angen cymeradwyaeth adeiladu/cynllunio • Mae'n hyblyg / Mae modd ei addasu • Mae'n syml ac yn hawdd ei ddefnyddio • Nid oes fawr ddim gwaith cynnal a chadw a/neu wasanaethu'n gysylltiedig ag ef 	<ul style="list-style-type: none"> • Canllawiau cydio • Canllawiau ar gyfer grisiau • Rampiau bach • Tapiâu hygyrch • Blychau cadw allweddi'n ddiogel • Canllawiau coes mop • Canllawiau y tu allan • Goleuadau allanol / ar risiau • Socedi trydan ychwanegol 	<ul style="list-style-type: none"> • HWYLUSO • Y Rhaglen Addasiadau Brys • Arian landlord cymdeithasol cofrestredig • Arian yr awdurdod lleol ei hun • Arian y defnyddiwr gwasanaeth ei hun
<p>Addasiadau canolig Unrhyw addasiadau na chânt eu hystyried yn rhai bach neu fawr.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'n bosibl bod angen addasiad mawr i'r cartref ond nid oes angen cymeradwyaeth adeiladu/cynllunio 	<ul style="list-style-type: none"> • Cawod heb ris i fynd i mewn iddi • Liffitiau grisiau • Rampiau mawr • Cyfuniad o addasiadau a gyflawnir yn rhan o un prosiect 	<ul style="list-style-type: none"> • HWYLUSO • Arian landlord cymdeithasol cofrestredig • Arian yr awdurdod lleol ei hun • Grantiau Addasiadau Ffisegol • Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl • Arian y defnyddiwr gwasanaeth ei hun

<p>Addasiadau mawr Maent yn waith a fydd yn gofyn am asesiadau arbenigol ac addasiadau mawr i eiddo, megis estyniadau a lifftiau sy'n mynd o'r naill lawr i'r llall. Bydd angen asesiad gan therapydd galwedigaethol, ac mae'n bosibl y bydd angen caniatâd cynllunio.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae angen addasiad mawr i'r cartref / newid strwythurol mawr • Mae angen atebion arbenigol / arloesol i broblem • Mae angen cymeradwyaeth adeiladu/cynllunio • Mae'n addasiad sefydlog / parhaol / hirdymor • Mae'n addasiad cymhleth / anghyfarwydd / mae'n gofyn am hyfforddiant a goruchwyliaeth • Mae'r ateb yn gofyn am arbenigedd i'w osod a'i gynnal a'i gadw 	<ul style="list-style-type: none"> • Codi estyniad er mwyn darparu ystafell wely a/neu ystafell ymolchi i lawr y grisiau • Liff t sy'n mynd o'r naill lawr i'r llall • Addasiadau strwythurol mewnlol sy'n sylweddol, ee symud ystafell ymolchi neu gegin 	<ul style="list-style-type: none"> • Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl • Grantiau Addasiadau Ffisegol • Arian landlord cymdeithasol cofrestredig • Arian yr awdurdod lleol ei hun • Arian y defnyddiwr gwasanaeth ei hun
--	---	--	---

**Ffurflen ymateb i'r
ymgyngoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yn berthnasol):

Ebost / Rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Safonau Gwasanaeth ar gyfer Addasiadau i Dai

Cwestiwn 1: A fydd y safonau gwasanaeth a gynigir yn gwella'r modd y caiff addasiadau i dai eu darparu yng Nghymru? Os na fyddant, a ddylid cynnwys rhagor o safonau gwasanaeth?

Cwestiwn 2: A yw'r safonau gwasanaeth a gynigir ynghylch yr 'Amserlenni Disgwyliedig' (Safon Gwasanaeth 6) yn ddigon heriol?

Cwestiwn 3: A yw'r diffiniadau ar gyfer addasiadau bach, canolig a/neu fawr yn ddigon clir? Os nad ydynt, sut y gellid eu gwneud yn fwy clir?

Cwestiwn 4: A oes unrhyw broblemau'n ymwneud â'r effaith ar y Gymraeg, agweddau ar gydraddoldeb neu hawliau plant yr hoffech dynnu sylw atynt yng nghyswllt y canllawiau drafft hyn?

Cwestiwn 5: A oes gennych unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu hychwanegu?

Os oes, nodwch nhw yma:

Mae'n debygol y bydd ymatebion i ymgynghoriadau'n cael eu cyhoeddi, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Ticiwch yma os byddai'n well gennych pe bai eich ymateb yn cael ei gadw'n ddiennw: